**Fforwm Partneriaeth GIG Cymru**

**Datganiad ar y cyd ynglŷn â chysylltiadau diwydiannol ac amser cyfleuster yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19)**

Un o brif gryfderau GIG Cymru yw'r bartneriaeth gadarn sy'n bodoli rhwng cyflogwyr a'r undebau llafur sy'n cynrychioli'r gweithlu. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, byddwn yn dibynnu ar y gallu hwn i weithio mewn partneriaeth, gan gyd-dynnu i wneud ein gorau i'w chryfhau ar bob lefel. Ar adegau digynsail fel y cyfnod presennol, mae angen partneriaethau i alluogi cydweithio yn fwy nag erioed.

Mae pawb yn cydnabod na ddylai sylw'r gweithlu, ei reolwyr na'i gynrychiolwyr yn yr undebau llafur, wyro oddi wrth y dasg graidd o ymateb i'r argyfwng y mae'r wlad yn ei wynebu. Oherwydd hynny, bydd yn rhaid i rai ohonom weithio mewn ffyrdd gwahanol neu newid ein gweithgarwch cysylltiadau cyflogaeth arferol yn ôl yr angen yn ystod cyfnod yr argyfwng. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod cysylltiadau rheolaidd â chynrychiolwyr lleol yn cael eu cynnal, yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

Gan gydnabod hyblygrwydd sylweddol staff y GIG a'u hymdrechion sydd y tu hwnt i unrhyw ymdrechion arferol, bydd aelodau Fforwm Partneriaeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau nad yw unrhyw aelod o staff, neu grŵp o staff, o dan anfantais oherwydd amgylchiadau'r argyfwng a'r trefniadau sydd ar waith i ymateb i'r pandemig.

Bydd Llywodraeth Cymru, cyflogwyr ac undebau llafur yn mynd ati i sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn parhau ar bob lefel, gan gadw at yr egwyddorion o weithio ar y cyd i ymdopi â threfniadau sy'n newid yn gyson, er mwyn canfod y tir sy'n gyffredin rhyngom a symud ymlaen gyda pharch at bob ochr.

Ar lefel leol, bydd cyflogwyr yn sicrhau bod amser cyfleuster i gynrychiolwyr undebau llafur yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys ar gyfer cynrychiolwyr iechyd a diogelwch, cyn belled â bod hynny'n ymarferol, gan ei ymestyn drwy gytundeb lle bo angen hynny, er enghraifft i ganiatáu ar gyfer ymwneud â strwythurau argyfwng newydd. Mae'n bwysig bod undebau llafur yn cyfrannu'n rheolaidd at faterion sy'n gysylltiedig â strwythurau argyfwng o'r fath, gan y bydd hynny yn cynorthwyo i reoli'r argyfwng presennol. Cydnabyddir y gallai fod amgylchiadau eithriadol lle bydd anghenion gwasanaethau'n golygu na ellir diogelu amser cyfleuster, gan fod angen i gynrychiolwyr helpu i ddarparu gwasanaethau rheng flaen. O dan amgylchiadau felly, bydd sefydliadau'n gweithio gyda phartneriaid undebau llafur i sicrhau bod lefel sylfaenol ac ymarferol o amser yn parhau i gael ei neilltuo. O'u hochr nhw, bydd cynrychiolwyr undebau llafur yn cydnabod y cyd-destun y maent yn gweithio ynddo, gan ymateb iddo gyda hyd yn oed mwy o sensitifrwydd gan fod yr angen i ddarparu gofal i gleifion yn ystod y cyfnod hwn yn flaenoriaeth glir sy'n gyffredin i bob un ohonom.

Ar lefel genedlaethol, cafodd Grŵp Ymateb i COVID-19 ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer defnyddio'r gweithlu a chynllunio llesiant fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng, ac mae'r grŵp hwnnw'n cyfarfod bob wythnos. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, cyflogwyr ac undebau llafur. Hefyd mae Pwyllgor

Busnes Fforwm Partneriaeth Cymru bellach yn cyfarfod bob wythnos er mwyn symud materion y gweithlu yn eu blaen mewn modd cydweithredol. Bydd gan bartneriaid yn yr undebau llafur fynediad at fforymau cenedlaethol a rhanbarthol eraill yn ogystal, a byddant yn parhau i godi materion sy'n berthnasol ar draws gwahanol sefydliadau yn y fforymau hynny.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ymatebion creadigol ar gael i'n gweithlu, gan ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio er mwyn arafu lledaeniad y feirws a lleihau ei effeithiau. Rydym yn ymdrechu hyd eithaf ein gallu i ddod o hyd i'r dulliau mwyaf effeithiol o gefnogi'r gweithlu yn ystod y cyfnod digynsail hwn; er na fyddwn bob amser yn cyrraedd y nod hwnnw. Serch hynny, bydd y trefniadau anffurfiol sydd ar waith ar hyn o bryd yn caniatáu i'r heriau a'r anghytundebau sy'n codi wrth weithio mewn partneriaeth gael eu datrys ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol, a mwy nag erioed o'r blaen bydd y trefniadau hynny'n dangos pa mor werthfawr ydynt wrth i'r gwaith barhau i'r dyfodol.